RHAGFYR 2022

INFORMATIVE

Bwletin Chwarterol Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

SEREMONI GWOBRWYO I DDATHLU LLWYDDIANNAU STAFF

RHOI AIL BEIRIANT TÂN I WCRÁIN

LANSIO FIDEO TANAU GWYLLT NEWYDD – CANLLAW I DIRFEDDIANWYR

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

SEREMONI GWOBRWYO I DDATHLU LLWYDDIANNAU STAFF

Mae'r seremoni gwobrwyo blynyddol bob amser yn un o uchafbwyntiau calendr Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a dyma oedd y tro cyntaf i'r seremoni gwobrwyo lawn gael ei chynnal ers 2019, cyn y pandemig.

Cyflwynodd Arglwydd Raglaw Gwynedd, Mr Edmund Seymore Bailey, Fedalau Gwasanaeth Hir ac Ymddygiad Da a chlasbiau 30 a 40 mlynedd i staff gweithredol yn ystod y seremoni a gynhaliwyd yn y Rhyl fis Hydref.

Cyflwynwyd hefyd wobrau'n cydnabod 50 mlynedd o wasanaeth gweithredol yn ogystal â Gwobrau Cymunedol i gydnabod aelodau o staff a'r gymuned sydd wedi gweithio'n galed i wella diogelwch cymunedol yng Ngogledd Cymru gan Dawn Docx, Prif Swyddog Tân a'r Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Meddai Dawn Docx, Prif Swyddog Tân: "Mae derbyn medal neu glesbyn yn achlysur pwysig i bob diffoddwr tân ac mae'r seremoni hon yn dangos yn glir graddau'r ymrwymiad ac ymroddiad y mae pob

un o'r rhai sydd wedi'u gwobrwyo wedi ei ddangos i'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Ngogledd Cymru. Gall bob un a wobrwywyd fod yn falch iawn a theimlo boddhad mawr wrth dderbyn eu Medalau neu glasbiau Gwasanaeth Hir ac Ymddygiad Da.

"Roeddwn hefyd wrth fy modd eleni ein bod wedi gallu dathlu'r gwobrau cymunedol am y tro cyntaf ers y pandemig.

"Rwy'n estyn llongyfarchiadau gwresog i bob un a fynychodd, yn ogystal â'r staff a ddewisodd dderbyn eu medalau neu eu cydnabyddiaeth yn breifat. Mae eich gwasanaeth wir yn cael ei werthfawrogi, gen i fel Prif Swyddog Tân, gan eich cydweithwyr a chan y cymunedau yr ydym ni gyd yn eu gwasanaethu."

Meddai'r Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru: "Ar ran Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru hoffwn longyfarch pawb a dderbyniodd fedal, clesbyn neu wobr. Llawer o ddiolch i chi am eich holl ymroddiad."

LANSIO FIDEO TANAU YN YR AWYR AGORED – CANLLAW I DIRFEDDIANWYR

Lansiodd y tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru fideo newydd yn y Ffair Aeaf yn Llanfair ym Muallt i roi canllaw cam wrth gam i dirfeddianwyr ar sut i gynnal llosgi dan reolaeth yn ddiogel.

Bob blwyddyn yng Nghymru, mae tân yn gyfrifol am ddifrodi miloedd o hectarau o dir cefn gwlad, mannau agored a chynefinoedd bywyd gwyllt.

Mae criwiau tân ledled Cymru eisiau parhau i weithio gyda chymunedau lleol, ffermwyr a thirfeddianwyr i amddiffyn ein tirwedd werthfawr yng Nghymru.

Fel yr eglura Tim Owen, Rheolwr Partneriaethau a Chymunedau Ardal y Dwyrain ac arweinydd Tanau Gwyllt Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru:

"Mae tanau yn yr awyr agored yn cymryd adnoddau y gall fod eu hangen mewn argyfwng arall, ac rydyn ni wedi gweld sut mae tanau yn yr awyr agored yn rhoi bywydau mewn perygl – bywydau ein cymunedau yn ogystal â'n diffoddwyr tân.

"Ym mis Mawrth 2022, bu cynnydd sylweddol yn nifer y tanau yn yr awyr agored i ni ymateb iddyn nhw yng ngogledd Cymru – o gyfartaledd pedair blynedd o 27 tân i 100 o danau ym mis Mawrth yn unig. Mae hynny'n gynnydd o 264%. Mae'r darlun hwn yn debyg ar draws Cymru gyfan.

"Dyna pam mae cydweithio i atal y tanau hyn yn bwysicach nag erioed – ac rydan ni'n gweithio efo ystod o sefydliadau, ynghyd â gwasanaethau tân ac achub eraill ledled Cymru, er mwyn codi ymwybyddiaeth am y difrod y mae tanau yn yr awyr agored yn gallu ei achosi i rai o'n tirweddau ucheldirol mwyaf eiconig.

"Rydan ni hefyd yn gweithio efo tirfeddianwyr a ffermwyr lleol – roedd llawer o'r tanau yn yr awyr

agored ucheldirol ym mis Mawrth y llynedd wedi digwydd o ganlyniad i dechnegau rheoli tir fel gwaith llosgi gweunydd rhagnodedig yn mynd allan o reolaeth, neu drwy losgi tocion yn rhy agos at weundir.

"Yn ogystal â chyfarfod tirfeddianwyr mewn marchnadoedd ffermwyr lleol, rydan ni hefyd wedi cynhyrchu'r canllaw fideo cam wrth gam yma ar sut i gynnal gwaith llosgi dan reolaeth mewn ffordd gyfrifol. Gobeithio y bydd yn helpu i sicrhau na fydd digwyddiadau Mawrth 2022 yn cael eu hailadrodd flwyddyn nesaf."

Mae'r fideo'n cefnogi gwybodaeth a chyngor Llywodraeth Cymru a'r tri gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru ar sut i losgi dan reolaeth. Gall ffermwyr a thirfeddianwyr ar draws Cymru losgi grug, glaswellt, rhedyn ac eithin hyd at 15 Mawrth (hyd at 31 Mawrth mewn ardaloedd ucheldirol) ond rhaid iddyn nhw gael Cynllun Llosgi er mwyn sicrhau eu bod yn llosgi'n ddiogel. Mae'n erbyn y gyfraith i losgi y tu allan i'r tymor llosgi a gall arwain at gosbau o hyd at £1000.

Yn ôl Graham Berry, Swyddog Maes Gweundiroedd ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn Sir Ddinbych:

"Yn ystod haf 2022, cofnodwyd y tymhereddau uchaf erioed, ac mae tanau yn yr awyr agored bellach yn cael eu hadnabod yn swyddogol fel perygl mawr ar y Gofrestr Risg Genedlaethol o Argyfyngau Sifil, ac yn adroddiad Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd ar Iechyd 2023 y DU.

"Gall effaith tanau yn yr awyr agored fod yn ddinistriol – maen nhw'n difrodi tir ac eiddo, niweidio bywyd gwyllt a'r amgylchedd, rhyddhau CO2 a llygryddion i'r atmosffer a chyrsiau dŵr, gan effeithio ar gymunedau a busnesau lleol.

"Mae diffodd tanau yn yr awyr agored yn waith anodd a chostus iawn, ac mae'n gofyn am lawer o bobl ag offer arbenigol yn gweithio dan amodau peryglus ac anodd.

"Mae'r costau yn sgil tanau yn yr awyr agored yn enfawr, gan gynnwys y gwaith adfer, ffermwyr a busnesau'n colli tir a'r effaith negyddol ar gymunedau.

"Gobeithio y bydd tirfeddianwyr yn gallu dilyn y canllawiau syml yn y fideo yma i'n helpu i leihau canlyniadau tanau yn yr awyr agored."

RHOI AIL BEIRIANT TÂN I WCRÁIN

Fe wnaeth ail beiriant tân a gafodd ei roi gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru gychwyn ar ei daith i ddwyrain Ewrop ym mis Hydref i gefnogi diffoddwyr tân sy'n gweithio ar y rheng flaen yn Wcráin.

Cafodd y cerbyd ei roi fel rhan o'r pedwerydd confoi Cymorth Tân i gefnogi'r diffoddwyr tân sy'n gweithio ar y rheng flaen yn Wcráin.

Aeth tîm o dri diffoddwr tân o'r Gwasanaeth ar y daith chwe diwrnod o'r Rhyl i ddanfon y peiriant i'w gyrchfan yng Ngwlad Pwyl.

Roedd y peiriant tân hefyd yn cario offer a fydd yn cael eu defnyddio i gefnogi diffoddwyr tân, y gwasanaethau brys a gwirfoddolwyr sy'n brwydro ar y rheng flaen.

Dywedodd Stuart Millington, y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol: "Mae llawer o orsafoedd tân a pheiriannau tân wedi'u dinistrio yn y rhyfel, felly rydyn ni'n falch o allu rhoi cefnogaeth sydd ei hangen yno drwy roi peiriant tân cwbl weithredol iddyn nhw am yr eildro. Roedd y cerbyd ar fin cael ei ddisodli yma yng Ngogledd Cymru.

"Ymunodd ein staff gyda chonfoi o gerbydau yn cynnwys gwasanaethau tân o bob cwr o'r DU i gefnogi'r ymdrech bwysig hon a gafodd ei chydlynu gan yr elusen Cymorth Tân a Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân.

"Rydyn ni'n hynod falch o'n staff a hoffem ddiolch i bawb a weithiodd yn galed i baratoi'r cerbyd a'r offer yn barod i adael, a hefyd i'r criw a yrrodd drwy Ewrop i Wlad Pwyl i ddanfon y cerbyd."

BYDDWN NI'N EU COFIO

Fe wnaeth aelodau o staff a Chadetiaid Tân o bob rhan o'r Gwasanaeth gymryd rhan yn y digwyddiadau Dydd y Cofio a gynhaliwyd ledled y rhanbarth ym mis Tachwedd i dalu teyrnged i bobl sydd wedi marw mewn gwrthdaro.

Dewiswyd y Diffoddwr Tân ar Brentisiaeth, Sarah Royal i gynrychioli'r gwasanaeth yn y Senotaff yn Llundain a gorymdeithiodd ymysg diffoddwyr tân a swyddogion eraill a oedd yn cynrychioli pob un o 44 o wasanaethau tân ac achub y Deyrnas Unedig.



TAITH RYFEDDOL Y DIFFODDWR TÂN, DAN I GAMBIA

Aeth y Swyddog Tân o Wrecsam, Daniel McNulty ar daith ryfeddol i Gambia, gan fynd â pheiriant tân a roddwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru drwy Operation Zephyr, sef taith elusennol i helpu sefydlu gwasanaeth ambiwlans a thân yng nghefn gwlad Gambia.

Aeth Daniel, sydd hefyd yn Arolygydd Gwirfoddol i Heddlu Gogledd Cymru, a Darren Armour, Prif Arolygydd Gwirfoddol Dros Dro, â'r peiriant yn ogystal â chychod achub ac offer amddiffyn personol a roddwyd gan y Gwasanaeth.

Ymunon nhw â phersonél y gwasanaethau brys o ledled y DU ac Ewrop er mwyn teithio drwy Ffrainc a Sbaen, gogledd-orllewin Affrica, yr holl ffordd i brifddinas Gambia, Banjul, er mwyn mwyn cludo pump ar hugain ambiwlans, injans tân a cherbydau cynorthwyo, taith 4000 o filltiroedd.

Treulion nhw amser hefyd yn darparu hyfforddiant a sesiynau ymgyfarwyddo â'r offer.

Meddai Dan: "Roedd hwn yn gyfle unwaith mewn oes i helpu ein teulu gwasanaethau brys o ran arall o'r byd. Y cwbl y maen nhw eisiau ei wneud ydy helpu eu cymunedau lleol fel rydyn ni'n helpu ein cymunedau ni. Roeddwn i'n gwybod yn syth fod angen i mi fod yn rhan o hyn a chyfrannu. Rwyf wedi bod ar daith anhygoel hyd yn hyn, gan weld caredigrwydd pobl, hyd yn oed ar yr adegau mwyaf anodd i ni eu hwynebu.

"Roedd y Gwasanaeth wedi gallu rhoi un o'n heb declynnau tân trwy Fire Aid, ac fe yrrais i o'r holl ffordd. Er bod gyrru injan dân ar draws Anialwch y Sahara yn her, roedd y wobr yn werth chweil!"

Bwriad Operation Zephyr yw darparu cerbydau brys sydd wedi eu dadgomisiynu ond sy'n gweithio, setiau radio, offer, gwisgoedd a hyfforddiant i'r wlad dlawd hon sy'n datblygu ar arfordir gorllewinol Affrica. Mae'r ymgyrch a drefnir gan Emergency Services Aid Charity y DU ac sy'n gweithio gyda'r Gymdeithas Heddlu Ryngwladol yn anelu at wneud newid cadarnhaol i Gambia, a helpu ein cyd-weithwyr yn y gwasanaethau brys i roi'r gwasanaeth gorau y gallan nhw ei roi.

Meddai'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Stuart Millington: "Mae hwn yn brosiect cyffrous a gwerth chweil, ac rydyn ni gyd mor falch o'r holl waith y mae Daniel wedi ei wneud. Rydyn ni wrth ein bodd ein bod wedi gallu rhoi offer trwy Fire Aid sydd yn eu tro wedi gallu cefnogi Daniel i helpu i amddiffyn y rhai hynny sydd mewn angen."

YMGYRCH PARCH WEDI EI FABWYSIADU AR GYFER NOSON TÂN GWYLLT

Gweithiodd staff mewn partneriaeth â Heddlu Gogledd Cymru a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i gefnogi'r ymgyrch ddiogelwch flynyddol dros gyfnod Calan Gaeaf a thân gwyllt.

Eleni roedd yr ymgyrch yn anelu at leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a sicrhau bod Gogledd Cymru'n lle mwy diogel yr adeg hon o'r flwyddyn.

Roedd hyn yn cynnwys apêl i ddangos ychydig o barch – parchu'r Cod Tân Gwyllt, parchu'r gwasanaethau brys a pharchu'n cymdogion, boed yn bobl neu'n anifeiliaid.

Ariannodd y Gwasanaeth nifer o weithgareddau amrywiol ledled Gogledd Cymru, yn ogystal â chefnogi gwaith diffoddwyr tân wrth iddyn nhw drefnu neu gynorthwyo mewn arddangosfeydd tân gwyllt wedi eu trefnu ledled y rhanbarth.

Dywedodd Kevin Jones, Cadeirydd Grŵp Llywio'r Ymgyrch:

"Mae diogelwch ar yr adeg hon o'r flwyddyn yn gyfrifoldeb i ni gyd. Y ffordd orau o leihau nifer yr anafiadau yn ystod dathliadau tân gwyllt yw drwy fynd i ddigwyddiadau wedi eu trefnu. Maen nhw nid yn unig yn fwy diogel ond maen nhw'n cynnig y cyfleusterau a'r gwerth am arian gorau, a'r peth pwysig yw eu bod yn lleihau'n fawr y gofid ac achosir i bobl hŷn a pherchnogion anifeiliaid anwes."

Meddai Dave Hughes, Pennaeth Diogelwch Tân a Ardal y Gorllewin: "Diolch byth, roedd y nifer o ddigwyddiadau a fynychwyd gennym oedd yn deillio o dân gwyllt a choelcerthi wedi lleihau'n fawr iawn gan fod y cyhoedd wedi gwrando ar ein hapêl i fynychu arddangosfeydd wedi eu trefnu yn hytrach na thanio eu tân gwyllt eu hunain gartref.

"Rwy'n falch ein bod wedi gallu cefnogi cynifer o ddigwyddiadau lleol eleni."

NODI DIWRNOD RHYNGWLADOL Y DYNION

Cododd staff o ledled y Gwasanaeth ymwybyddiaeth o Ddiwrnod Rhyngwladol y Dynion fis Tachwedd.

Cymeron nhw ran yn Parkrun Nant y Pandy yn Llangefni cyn cwrdd yng Ngorsaf Dân Llangefni am 'baned a sgwrs'.

Jamie Lewis, Ymgynghorydd Iechyd, Ffitrwydd a Lles, drefnodd y digwyddiad. Meddai: "Dechreuodd y bore gyda ras 5k lle gwnaeth pawb ymdrech dda iawn a daeth un aelod o'r staff sef Nick McCormick yn drydydd a Michaela Lauder oedd y ferch gyntaf dros y llinell derfyn.

"Cafwyd ymdrech dda iawn hefyd gan Jody McEachern, Rheolwr Recriwtio ac Argaeledd, a redodd yr holl ras yn gwisgo gwisg ac esgidiau swyddog tân.

"Aethon ni gyd wedyn i Orsaf Dân Llangefni i fwynhau 'Paned a Sgwrs', Roedd hi'n fore hyfryd a llwyddwyd i ddod ag aelodau o'r staff at ei gilydd a chodi ymwybyddiaeth am bryderon sy'n effeithio ar ddynion, a dathlu sut y gall pobl weithio gyda'i gilydd i oresgyn gofid a gwella llesiant."

RHIF TECST NEWYDD YN BLAENORIAETHU EICH DIOGELWCH

Gallai anfon tecst sydyn at y gwasanaeth tân ac achub fod yn hollbwysig i sicrhau eich diogelwch.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi ail-lansio ei wasanaeth tecstio er mwyn galluogi pobl i gofrestru'n gyflym ac yn hawdd i gael gwiriad diogel ac iach rhad ac am ddim, a allai achub eu bywyd.

Cafodd ei lansio ar Ddiwrnod Pobl Hŷn ym mis Hydref er mwyn annog trigolion prysur y Gogledd i fanteisio ar y gwasanaeth newydd drwy gofrestru eu hunain neu eu rhieni, eu teulu neu ffrindiau hŷn i gael gwiriad o'r fath.

Cafodd Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn ei gychwyn gan y Cenhedloedd Unedig dros 30 mlynedd yn ôl i ddathlu pobl hŷn.

Dyma Kevin Jones, Rheolwr Partneriaethau a Chymunedau'r ardal Ganolog i egluro: "Rydyn ni i gyd mor brysur, mae'n anodd weithiau dod o hyd i'r amser i wneud y pethau rydyn ni wedi bod yn meddwl am eu gwneud ers wythnosau.

"Gallwch chi nawr flaenoriaethu eich diogelwch chi a diogelwch eich anwyliaid drwy anfon tecst cyflym i 07507303678 – nodwch eu henw a'u manylion yn y neges ac fe wnawn ni'r gweddill.

"Fe wnaethon ni ail-lansio'r gwasanaeth hwn ar Ddiwrnod Pobl Hŷn gan fod y rhan fwyaf ohonon ni'n 'nabod rhywun hŷn neu fregus a allai wneud y tro efo help llaw – felly rydyn ni'n gofyn i chi gymryd ychydig eiliadau i anfon tecst sydyn i helpu i'w cadw'n ddiogel yn eu cartrefi."

CEFNOGI MIS ALZHEIMER Y BYD

Mae llawer o deuluoedd yn cael trafferth yn sicrhau cefnogaeth ar ôl diagnosis o ddementia a phob mis Medi, mae pobl yn uno i godi ymwybyddiaeth ac i herio'r stigma sy'n dal i fod ynglŷn â chlefyd Alzheimer a phob math o ddementia.

Fel rhan o fis Alzheimer y Byd eleni, treuliodd staff o'r Gwasanaeth y prynhawn ym Modnant gyda grŵp o unigolion sy'n byw gyda dementia, ynghyd â'u gofalwyr.

Dywedodd Gemma Brook, Rheolwr Partneriaeth ar gyfer Gwynedd a Môn: "Rhoddodd y daith gerdded o amgylch Gerddi Bodnant a'r lluniaeth a ddilynodd gyfle i ni siarad â'r grŵp am gadw'n ddiogel rhag tân, gan roi cyfle i ni drafod rhywfaint o gyngor diogelwch tân mewn sefyllfa hamddenol ac anffurfiol.

"Roedd hi hefyd yn wych ar gyfer iechyd meddwl a lles pawb, ac fe roddodd gyfle i ofalwyr siarad ag eraill sydd mewn sefyllfa debyg, a gwybod bod digon o gefnogaeth i'w gael. Diwrnod buddiol iawn i bawb a gymerodd ran."

DATHLU WYTHNOS YSTAFELL REOLI RYNGWLADOL

Os ffoniwch chi 999 i adrodd am dân, rhywun wedi eu dal mewn dŵr, neu hyd yn oed ddigwyddiad cemegol unrhyw le yng Ngogledd Cymru, byddwch yn debygol o siarad ag un o'r gweithredwyr yn ystafell reoli'r Gwasanaeth.

Roedd Wythnos Ystafell Reoli Ryngwladol (19-25 Hydref) yn gyfle i gydnabod gwaith gweithwyr yr ystafell reoli yn achub ac yn newid bywydau ochr yn ochr â gwasanaethau brys eraill ledled y DU, a chydnabod eu cryfder a'u gwytnwch wrth ddarparu gwasanaeth 24 awr y dydd am 7 diwrnod yr wythnos wrth ymateb i alwadau brys.

Meddai Ros Thomas, y Pennaeth yr Ystafell Rheoli: Mae'r fenter hon yn dathlu ac yn codi ymwybyddiaeth o'r rôl bwysig y mae timau ystafelloedd rheoli yn eu chwarae wrth ymdrin â sefyllfaoedd trawmatig a gofidus ac wrth gynorthwyo gyda darparu gwasanaethau ehangach.

"Y llynedd, gwelsom gynnydd o 16.32% mewn galwadau brys a gwnaeth ei gweithredwyr rheoli ymdrin â 12,465 o alwadau brys, ac fe wnaethon ni gwrdd â'n targed o ateb 92% o alwadau 999 o fewn saith eiliad."

Ewch i wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am ragor o fanylion ynglŷn â bod yn rhan o'n tîm yn gweithio fel gweithredwr rheoli yn y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd.

MYFYRWYR YN DYSGU AM DDIOGELWCH TÂN

Dechreuodd tymor y brifysgol gyda gwers mewn diogelwch tân i fyfyrwyr Gogledd Cymru.

Mynychodd staff gwasanaeth tân ac achub ffeiriau'r glas ym Mhrifysgolion Bangor a Glyndŵr Wrecsam yn ogystal â Choleg Cambria.

Cafodd myfyrwyr eu profi ar eu gwybodaeth mewn cwis diogelwch tân a olygodd eu bod wedyn yn rhan o gystadleuaeth i ennill £50 mewn talebau archfarchnad.

Meddai Tim Owen, Rheolwr Partneriaethau a Chymunedau ar gyfer Ardal y Dwyrain: Roedd ffeiriau'r glas yn brysur iawn a siaradon ni gyda channoedd o fyfyrwyr ynglŷn â phwysigrwydd diogelwch tân, gan rannu ein cyngor ar sut i'w cadw'n ddiogel.

"Rydyn ni hefyd wedi bod yn rhoi cyngor ynglŷn â sut i osgoi galwadau diangen yn y neuaddau preswyl – yn wir, rydyn ni wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â'r ddwy brifysgol ar y pwnc hwn am nifer o flynyddoedd ac wedi gweld cynnydd sylweddol.

"Mae nifer o'r bobl ifanc hyn yn byw oddi cartref a heb eu rhieni am y tro cyntaf ac o bosibl yn agored iawn i niwed.

"Byddwn ni'n parhau i weithio gyda staff yn y prifysgolion trwy gydol y flwyddyn er mwyn hyrwyddo diogelwch tân mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau ar eu safleoedd."

DIGWYDDIAD DIOGELWCH CYMUNEDOL Y RHYL

Fe wnaeth staff o'r timau Diogelwch Cymunedol gynnal Diwrnod Diogelwch Cymunedol a Lles yng Nghanolfan Gymunedol y Rhyl ym mis Medi.

Yn ôl Nia Bache, Rheolwr Partneriaethau Conwy a Sir Ddinbych: "Cafodd y diwrnod ei gynnal mewn partneriaeth â SP Energy Networks a Dŵr Cymru, ac roedd yn gyfle i'r staff siarad â thrigolion am gadw'n ddiogel. Roedd hefyd yn gyfle i'n partneriaid siarad gyda nhw am dlodi tanwydd a macsimeiddio incwm.

"Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn a chawson ni gyfle i roi gwybod i bobl am yr hyn sydd ar gael iddyn nhw a sut i sicrhau eu bod yn cadw'n ddiogel wrth gadw'n gynnes y gaeaf yma."